Mân waith cynnal a chadw toeon: Diogelu rhag syrthio

Ymgyrch 'Height Aware'

Taflen wybodaeth 5

Os oes angen i chi wneud mân waith atgyweirio ar do, bydd y wybodaeth hon yn eich helpu i gynllunio dull diogel o weithio.

Beth ydyw?

Mae mân waith cynnal a chadw toeon yn dasg:

- y gellir ei chwblhau o fewn munudau, nid oriau;
- nad yw'n digwydd yn aml;
- sydd angen un neu ddau berson yn unig;
- nad yw'n cynnwys gwaith anodd (ee llwythi trwm neu letchwith);
- sy'n ymwneud ag arwynebedd bach yn unig.

Er enghraifft, newid ychydig o lechi to.

Mae gweithio ar doeon yn waith arbenigol a dim ond pobl gymwys ddylai ei wneud, gan ddefnyddio dull gwaith sy'n benodol i'r dasg, gyda goruchwyliaeth a monitro priodol. Mae angen offer diogelwch rhag syrthio, ee sgaffaldiau addas, o safon uwch ar fathau eraill o waith ar doeon, sy'n cymryd rhagor o amser, sy'n fwy o faint neu sy'n anos.

Cyn dechrau'r gwaith

Cyn dechrau unrhyw waith ar doeon, edrychwch yn gyntaf i weld a ellir osgoi gweithio ar uchder.

Efallai y bydd yn bosibl gweithio o fasged math arbennig o MEWP ('craen casglu ffrwythau') ar gyfer rhywfaint o waith arolygu ac atgyweirio. Mae hyn yn osgoi'r angen i bobl fynd ar y to a'r risgiau o godi a datgysylltu offer.

Os na ellir osgoi gweithio ar uchder, bydd angen i chi benderfynu sut i:

- gael mynediad at y to:
  - cael pobl ar y to ac oddi arno yn ddiogel;
  - cael deunyddiau ar y to ac oddi arno yn ddiogel;
- atal syrthio o'r to, yn cynnwys:
  - pobl yn syrthio;
  - deunyddiau yn syrthio ac yn anafu pobl islaw;
- gweithio'n ddiogel ar y to, gan gynnwys ystyried:
  - a yw'r to yn ddiogel i sefyll arno ac a oes ganddo unrhyw fannau bregus;
  - a all y to gynnal llwythi eraill, ee deunyddiau ac offer;
  - a yw'n anniogel cynnal y gwaith oherwydd y tywydd, ee gwyntoedd cryfion neu wynebau rhewllyd.

Drwy ddefnyddio pobl cymwys i'ch helpu chi i ateb y cwestiynau hyn, dylech allu sefydlu dull diogel o weithio y bydd gweithwyr cymwys yn gallu ei ddilyn, a fydd yn lleihau'r risg o ddamwain.

Cael mynediad at y to

Pobl

Os yw'n bosibl, dylech ddefnyddio dull sefydlog presennol o gael mynediad (grisiau neu ysgolion) yn hytrach nag offer dros dro. Fel arall, dylech, o leiaf, ddefnyddio sgaffaldiau t_r, neu systemau tebyg. Mae'r rhain yn darparu diogelwch o gwmpas yr ymylon a llwyfan y gallwch osod byrddau cropian ohono.

Ysgolion wedi'u diogelu yn aml fydd y dewis ddull ar gyfer gwaith ar doeon domestig ar oleddf. Ar gyfer gwaith arall, dylent eu hystyried fel yr opsiwn olaf, ee pan nad oes digon o le i ddefnyddio unrhyw beth arall.

Offer a deunyddiau

Ystyriwch sut i gael offer a deunyddiau ar y to ac oddi arno. Cyn codi deunyddiau ar hyd ochr sgaffald t_r, dylech asesu'r risgiau trin a sadrwydd. Mae'n bosibl y bydd wagenni fforch godi, cerbydau llwytho lorïau ac offer arall ar gael yn rhwydd.

Diogelwch personol rhag syrthio

Dylid defnyddio offer atal yn hytrach nag offer lliniaru cwymp, gan ei fod yn atal rhywun rhag syrthio. Offer lliniaru cwymp yw'r opsiwn olaf fel arfer gan nad yw'n atal syrthio a dim ond yr unigolyn y mae'n diogelu.

Mae'n rhaid i bob offer atal neu offer lliniaru cwymp gael:

- pwynt angori cryf, nid yw landeri'n addas;
- system i osod angorau dros dro, ee angorau pwysau marw, rhaffau achub llorweddol, yn ddiogel;
- systemau a gynlluniwyd yn gywir, felly o ran:
  - offer atal, ni all defnyddwyr gyrraedd unrhyw ymyl y gallant syrthio ohono;
  - offer lliniaru cwymp, mae digon o le i'w ddefnyddio;
  - offer lliniaru cwymp, mae system achub ar waith;
- goruchwyliaeth fanwl;
- defnyddwyr hyfforddedig, fel y gallant:
  - ddefnyddio'r offer yn ddiogel;
  - edrych ar ôl unrhyw offer;
  - defnyddio gweithdrefnau achub.

Peidiwch â defnyddio dyfeisiau rîl ddirwyn yn llorweddol na thros ymyl, oni bai eu bod wedi'u cynllunio ar gyfer hynny. Cadarnhewch hyn gyda'r gwneuthurwr. Mae'r mwyafrif wedi'u cynllunio a'u profi i'w defnyddio pan gânt eu hangori yn uwch na'r defnyddiwr (hy yn fertigol).

LACORS
promoting quality regulation

Atal deunydd rhag syrthio

Dylech atal offer neu ddeunyddiau rhag syrthio drwy ddefnyddio gwregys offer a dulliau eraill. Lle na ellir atal pethau rhag syrthio nac osgoi hyn yn llawn, sefydlwch barthau cau allan, ee ffens. Os na allwch sefydlu parthau cadw allan mewn ardaloedd y gall y cyhoedd fynd iddynt, bydd yn rhaid i chi gymryd camau eraill.

Ni ddylid taflu (bomio) deunyddiau, offer na malurion i lawr o uchder.

Achub

Ystyriwch achub os bydd pobl yn defnyddio offer lliniaru cwymp neu offer mynediad p_er. Mae angen i chi fod â chynlluniau achub ar waith a'r modd (pobl ac offer) ar gyfer eu gweithredu. Yn gyffredinol, nid yw dibynnu ar y gwasanaethau brys yn ddigonol.

Cryfder y to

A yw'r to'n addas ar gyfer sefyll neu roi deunyddiau neu offer arno? Mae hyn yn dibynnu ar:

- a yw'n fregus;
- a ydyw ar oleddf;
- a yw'n llithrig;
- a yw'n hawdd ei ddifrodi; neu
- a yw'n ddigon cryf ar gyfer llwythi eraill (ee deunyddiau).

Dylid trin unrhyw gydosodiadau to a gaiff eu categoreiddio fel rhai nad ydynt yn fregus fel pe baent yn fregus nes y cânt eu gosod, oni bai bod y gwneuthurwyr yn nodi fel arall.

Mae rhai wynebau nad ydynt yn fregus yn mynd yn fregus wrth iddynt heneiddio a chael eu difrodi, felly mae angen eu harchwilio. Dylech dybio bob tro bod unrhyw wyneb to yn fregus hyd nes y bydd person cymwys yn cadarnhau fel arall.

Hoffech chi ragor o wybodaeth?

Dyma un o bum taflen wybodaeth yr ymgyrch 'Height Aware. Y gweddill yn y gyfres yw:

Taflen 1: Gweithio ar uchder: Yr hanfodion
Taflen 2: Dewis offer ar gyfer gweithio ar uchder
Taflen 3: Dewis contractwyr cymwys ar gyfer gweithio ar uchder
Taflen 4: Dewis, defnyddio a chynnal a chadw offer diogelwch personol rhag syrthio

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr HSE www.hse.gov.uk/falls ac o Linell wybodaeth HSE ar 0845 345 0055.